# Dros Ddyfodol Cymru

## Ymgyrch Refferendwm yr UE




## Mae'r Refferendwm ar Ewrop ar Fehefin 23 o bwys mawr i Gymru ac i Blaid Cymru

### Gweledigaeth o Gymru yn y Byd:

Drwy fod yn aelod o'r UE, mae gan Gymru lais mewn materion rhyngwladol sydd yn cael eu gwadu i ni gan San Steffan. Mae Plaid Cymru'n gweld dyfodol i Gymru fel gwlad annibynnol, lwyddiannus a llewyrchus o fewn yr UE. Dymunwn chwarae rhan lawn a chael ein llais ein hunain. Er mor gyfyng yw pwerau'r Cynulliad ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis annerch yr UE yn achlysurol er mwyn amddiffyn ein buddianau cenedlaethol pan ddaw hi i faterion yn ymwneud ag amaeth, twristiaeth, trafnidiaeth, yr iaith Gymraeg a meysydd allweddol eraill. Allwn ni dim caniatáu i hynny gael ei gymryd oddi wrthym.

### Undod:

Golyga aros o fewn yr UE y gallwn barhau i wella hawliau gweithwyr a hawliau dynol. Rydym yn derbyn arian ar gyfer ffermwyr ac ar gyfer ailddatblygu ein cymunedau. Mae'r polisi yma o gydraddoldeb ac o ailddosbarthu cyfoeth yn un o gonglfeini'r UE – yn sicr ni ellir dweud yr un peth am wleidyddiaeth San Steffan.

### Er mwyn ein plant, er mwyn ein dyfodol ni i gyd ac er mwyn heddwch:

Allwn ni ddim gorbwysleisio'r rhan allweddol o bwysig a chwaraewyd gan yr UE wrth iddi sicrhau'r cyfnod o heddwch hiraf a gafwyd erioed yn hanes Ewrop. Yn ystod cyfnod o densiynau byd-eang cynyddol, mae angen i ni gydsefyll a bod yn rhan o newid cadarnhaol yn y byd. Cred Plaid Cymru mewn uno pobl, nid eu gwahanu.

## Mae Cymru'n well ei byd o fewn yr UE

**Dymuna Plaid Cymru weld Cymru annibynnol yn Ewrop.**


Gwêl Plaid Cymru ddyfodol i Gymru fel gwlad lwyddiannus a llewyrchus o fewn yr UE. Efallai ein bod yn fach ond mae gyda ni gymaint i'w gynnig i'r UE ac sydd ganddo i gynnig i ni.

Dymunwn weld Ewrop arall– Ewrop wahanol. Un lle bydd lleisiau gwledydd bychain yn cael eu clywed a lle gallant barhau i weithio gyda'n cyfeillion yn Llydaw, Catalwnia a Gwlad y Basg ac eraill dros sicrhau newid blaengar.

Mae pob aelod wladwriaeth o fewn yr UE yn annibynnol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd ar faterion sydd yn effeithio ar bob un ohonom – newid hinsawdd, economi gynaliadwy a chreu cymdeithas decach.

Mae Plaid Cymru'n gweithio dros well hawliau ar gyfer menywod, materion LHDTRh a'r amgylchedd ac mae'r UE yn rhannu'r un nodau. Gwyddom na allwn ymddiried yn San Steffan i amddiffyn ein hawliau.

Dymuna Plaid Cymru weld Ewrop mwy gymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn iaith swydogol. Gallwn gyflawni hyn.



**Cafodd Cymru ei thrawsffurfio diolch i'r UE.**

Mae ein traethau, ein harfordir, ein cymunedau amaethyddol a diwydiannol, yn ogystal â'n tirnodau mwyaf eiconaidd wedi elwa'n uniongyrchol gan gefnogaeth o Ewrop. Nid newidiadau arwynebol yn unig oedd rhain chwaith. Maen nhw wedi gwneud ein bywydau'n well.

Does dim un blaid yn San Steffan wedi addo i ariannu Cymru drwy ad-dalu'r arian Ewropeaidd y byddem yn ei golli pe baem yn gadael yr UE.

Mae ein plant wedi elwa o greu swyddi a phrentisiaethau adref ac wedi gallu teithio'n rhydd i weithio ac astudio dramor. Mae'r gallu yma i gyfnewid sgiliau a gwybodaeth o werth amhrisiadwy i Gymru.

Dyma sydd yn y fantol fis Mehefin a dyma pam mae'ch angen **CHI** ar Gymru i chwarae eich rhan yn yr ymgyrch i barhau i aros Mewn – i wneud yr hyn sydd orau i Gymru ac i gadw ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Plaid Cymru'n gweithio gyda'r ymgyrch Cymru'n Gryfach o Fewn Ewrop gan drefnu taflennu, cyfarfodydd a stondinau stryd. Er mwyn cael gwybod beth sydd yn digwydd o fewn eich ardal yn yr wythnosau nesaf cysylltwch â:

**Plaid Cymru**
Twitter: @Plaid_Cymru
Ebost: post@plaidcymru.org

Plaid Cymru | Party of Wales

**Cymru'n Gryfach yn Ewrop**
Twitter: @WalesStrongerIn
Ebost: contact@strongerin.co.uk

**Y Mudiad Ewropeaidd**
Ebost: wales@euromove.org.uk

Am fwy o wybodaeth galwch gysylltu hefyd â Mae Ewrop Arall yn Bosibl.
Twitter: @another_Europe
Ebost: info@anothereurope.org

# For the Future of Wales

## EU Referendum Campaign




## The European Referendum on June 23rd is crucial for Wales, and for Plaid Cymru

### A vision of Wales in the World:

Through EU membership, Wales has a say in international affairs that Westminster denies us. Plaid Cymru sees Wales's future as a successful and prosperous independent country in the EU. We want to play a full part and to have our own voice. Even with our Assembly's current limited powers, the Welsh government at times chooses to make representations to the EU in order to protect our national interests when it comes to agriculture, tourism, transport, the Welsh language and other key areas. We cannot allow that to be taken away from us.

### Solidarity:

Staying in the EU means that we can continue to improve workers' and human rights. We receive funding for farmers and for the redevelopment of our communities. This policy of equality and redistribution of wealth is a cornerstone of the EU while the same certainly cannot be said of Westminster politics.

### For our children, for all our futures and for peace:

We must not underestimate the importance of the EU in creating the longest-lasting peace in European history. At a time of rising global tensions we need to stand together and be a part of positive change in the world. Plaid Cymru believes in uniting people, not dividing them.

## Wales is better off in the EU

**Plaid Cymru wants an independent Wales in Europe.**


Plaid Cymru sees Wales's future as a successful and prosperous independent country in the EU. We may be small but we have as much to offer the EU as it has to offer us.

We want to see another Europe – a different Europe. One in which small countries' voices are heard and where we can continue to work with our colleagues in Brittany, Catalonia and the Basque Country and others for progressive change.

Every member state of the EU is independent. They work together on issues that affect us all - climate change, a sustainable economy and creating a fairer society.

Plaid Cymru works for better rights for women, LGBTI issues and on the environment and the EU shares these aims. We know that we cannot trust Westminster to safeguard our rights.

Plaid Cymru wants a more social Europe, with Welsh as an official language. We can achieve that.



**Wales has been transformed thanks to the EU.**

Our beaches, our coastline, our agricultural and industrial communities, as well as some of our most iconic landmarks have directly benefited from European backing. The changes have not been merely cosmetic. They have made our lives better.

No Westminster party has promised to replace Wales's European funding if we leave the EU.

Our children have benefited from job creation and apprenticeships at home and have been able to travel freely, to work and study abroad. This exchange of knowledge and skills is invaluable to Wales.

That is what is at stake in June, and why Wales needs **YOU** to play your part in the Remain campaign – to do what's best for Wales and keep our membership of the European Union.

Plaid Cymru is working with the Wales Stronger In campaign to organise leafleting, meetings and street stalls. To find out what's happening in your area in the next few weeks contact:

**Plaid Cymru**
Twitter: @Plaid_Cymru
Email: post@plaidcymru.org

Plaid Cymru | Party of Wales

**Wales Stronger In**
Twitter: @WalesStrongerIn
Email: contact@strongerin.co.uk

**Wales European Movement**
Email: wales@euromove.org.uk

For more information you can also contact Another Europe is Possible.
Twitter: @another_Europe
Email: info@anothereurope.org